OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 425 (Cy. 82)

2025 No. 425 (W. 82)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Cymru) (Diwygio) 2025

The Foot-and-Mouth Disease (Wales) (Amendment) Order 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud drwy arfer y pwerau a roddir gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (p. 22). Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru yn unig.

Ar hyn o bryd mae erthygl 16(1) o Orchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Cymru) 2006 ("Gorchymyn 2006") yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddatgan parth rheolaeth dros dro pan amheuir bod y clwy mewn mangre o dan amheuaeth. Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio erthygl 16(1) o Orchymyn 2006 i alluogi Gweinidogion Cymru i ddatgan parth rheolaeth dros dro ar sail disgresiwn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order is made in exercise of the powers conferred by the Animal Health Act 1981 (c. 22). This Order applies in relation to Wales only.

Article 16(1) of the Foot-and-Mouth Disease (Wales) Order 2006 ("the 2006 Order") currently requires the Welsh Ministers to declare a temporary control zone on suspicion of disease around a suspect premises. Article 2 of this Order amends article 16(1) of the 2006 Order to provide the Welsh Ministers with a discretion as to whether to declare a temporary control zone.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this Order.

2025 Rhif 425 (Cy. 82)

ANIFEILIAID, CYMRU

Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Cymru) (Diwygio) 2025

Gwnaed	*2 Ebrill 2025*
Yn dod i rym	*3 Ebrill 2025*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 1, 8(1), 17(1), 23 ac 28 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**).

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Cymru) (Diwygio) 2025.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Ebrill 2025.

Diwygio Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Cymru) 2006

2.—(1) Mae Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Cymru) 2006(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 16(1) (datgan parth rheolaeth dros dro) yn lle "must" rhodder "may".

Huw Irranca-Davies

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
2 Ebrill 2025

(**1**) 1981 p. 22 ("Deddf 1981"). Mae swyddogaethau "the Ministers" o dan Ddeddf 1981 (fel y'u diffinnir yn adran 86(1) o Ddeddf 1981) yn arferadwy gan Weinidogion Cymru, o ran Cymru, yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (O.S. 2004/3044), ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) O.S. 2006/179 (Cy. 30).

2025 No. 425 (W. 82)

ANIMALS, WALES

The Foot-and-Mouth Disease (Wales) (Amendment) Order 2025

Made	*2 April 2025*
Coming into force	*3 April 2025*

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred by sections 1, 8(1), 17(1), 23 and 25 of the Animal Health Act 1981(**1**).

Title and coming into force

1.—(1) The title of this Order is the Foot-and-Mouth Disease (Wales) (Amendment) Order 2025.

(2) This Order comes into force on 3 April 2025.

Amendment to the Foot-and-Mouth Disease (Wales) Order 2006

2.—(1) The Foot-and-Mouth Disease (Wales) Order 2006(**2**) is amended as follows.

(2) In article 16(1) (declaration of a temporary control zone) for "must" substitute "may".

Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs, one of the Welsh Ministers
2 April 2025

(**1**) 1981 c. 22 ("the 1981 Act"). Functions of "the Ministers" under the 1981 Act (as defined in section 86(1) of the 1981 Act) are exercisable by the Welsh Ministers, in relation to Wales, by virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2004 (S.I. 2004/3044), and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(**2**) S.I. 2006/179 (W. 30).

©ⓗHawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39685-0

£5.78

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2025/425